



Cyd-bwyllgor
corfforaethol
De-Dwyrain Cymru



South East Wales
Corporate
Joint Committee

Hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud â phrosesu data personol gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ar gyfer rheoli a llywodraethu'r pwyllgor



MAE EICH DATA O BWYS

YOUR DATA MATTERS

Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (SEWCJC yn Saesneg neu'r 'Cyd-bwyllgor') yn un o bedwar corff corfforaethol a sefydlwyd yng Nghymru i sicrhau cysondeb wrth gydweithio'n rhanbarthol ar gyfer cynllunio datblygiad strategol a chynllunio trafndiaeth ranbarthol.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys yr aelodau canlynol: -

1. Arweinwyr Gweithredol yr Awdurdodau Lleol canlynol (y cyfeirir atyn nhw yn y Rheoliadau yn 'Gynghorau Cyfansoddol') a benodwyd o dan Ran 3(7) o'r Rheoliadau;
 - i. Cyngor Caerdydd
 - ii. Cyngor Sir Fynwy
 - iii. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
 - iv. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 - v. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - vi. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
 - vii. Cyngor Dinas Casnewydd
 - viii. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT)
 - ix. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
 - x. Cyngor Bro Morgannwg
2. Penodwyd aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan Ran 3(8) y Rheoliadau.
3. Penodwyd cyfranogwyr cyfetholedig (dewisol) o dan Ran 3(9) y Rheoliadau.

Ac yntau'n gyd-bwyllgor rhanbarthol, rhan o rwymedigaethau Cyd-bwyllgor Rhanbarthol Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith, a bod y trefniadau llywodraethu hyn yn cael eu rheoli a'u cynnal yn briodol.

Gwybodaeth am yr hysbysiad preifatrwydd yma

Bwriad yr hysbysiad preifatrwydd yma yw darparu gwybodaeth am sut y bydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion at ddiben rheoli'r pwyllgorau canlynol;

- Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru
- Unrhyw is-bwyllgorau yn y dyfodol sy'n cael eu cymeradwyo gan y cyd-bwyllgor

Y Rheolwr/Rheolydd Data

Y Cyd-bwyllgor yw'r rheolydd ar gyfer y data personol y mae'n ei brosesu.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi'i gofrestru'n rheolydd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y rhif cofrestru yw: ZB295457.

Sut i gysylltu â ni ar gyfer materion neu bryderon diogelu data

Yr Arweinydd Diogelu Data yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data.

Mae sawl ffordd i chi gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data, gan gynnwys dros y ffôn, drwy e-bost a thrwy'r post fel a ganlyn;

- E-Bost: Jonathon.Segarty@caerdydd.gov.uk
- Trwy'r post: Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, Ystafelloedd 6.12 a 6.17, sbarc|spark, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ
- Ffôn: 07966 748411

Mae modd i chi hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data. Serch hynny, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf.

Swyddog Diogelu Data

Ac yntau'n awdurdod arweiniol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r Cyd-bwyllgor yn y lle cyntaf ynghylch unrhyw fater diogelu data. Serch hynny, os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn uniongyrchol, mae modd i chi wneud hynny drwy anfon e-bost:

- Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

Gan fod y Cyd-bwyllgor yn gweithredu'n rheolydd data, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n anfon copi o'ch gohebiaeth at y Swyddog Diogelu Data (Jonathon.Segarty@cardiff.gov.uk), at y Cyd-bwyllgor hefyd.

Data personol pwy ydyn ni'n ei brosesu?

Rydyn ni'n prosesu data personol yn ymwneud â/ag;

- Aelodau'r Pwyllgor
- Swyddogion sy'n bresennol yn y pwyllgor
- Awduron yr Adroddiad

Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Mae modd i ni brosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud ag aelodau'r pwyllgor, swyddogion ac awduron adroddiadau;

- Enw
- Teitl swydd/rôl
- Gwybodaeth am y cyflogwr (enw, cyfeiriad)
- Gwybodaeth gyswllt busnes (cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn ac ati)
- Gwybodaeth gyswllt personol (cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn ac ati)
- Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Mae modd i'r wybodaeth yma gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - Buddiant ariannol
 - Buddiant yn ymwneud â busnes
 - Buddiannau tir neu eiddo
 - Buddiant gwleidyddol
 - Aelodaeth neu gysylltiad â sefydliadau eraill, e.e. undeb llafur, clwb, elusen, cymdeithasau ac ati.

Pam rydyn ni'n prosesu data personol

Rydyn ni'n prosesu'r data personol er mwyn cyflawni'n rhwymedigaethau statudol ni sy'n ymwneud â llywodraethu cyfarfodydd pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r gweithgareddau canlynol:

- Rheoli aelodaeth
- Rheoli prosesau sy'n datgan buddiannau
- Trefnu cyfarfodydd pwyllgor
- Rheoli rhestrau o'r sawl sy'n bresennol
- Anfon gwahoddiadau
- Paratoi adroddiadau pwyllgor
- Cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau pwyllgor
- Cofnodi presenoldeb mewn cyfarfodydd
- Cofnodi cyfarfodydd cyhoeddus
- Paratoi a chyhoeddi cofnodion i ddogfennu trafodaethau a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn cyfarfodydd pwyllgor

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol

Yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol i ymgymryd â'n swyddogaeth statudol yw;

- **Rhwymedigaeth Gyfreithiol (c)** – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rhwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.
- **Tasg Gyhoeddus** - Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.
- **Budd sylweddol i'r cyhoedd** - Erthygl 9 (2) (g) - prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano.

Y ddeddfwriaeth sylfaenol, rheoliadau a chanllawiau sy'n ategu hyn yw;

- [Rheoliadau Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru 2021](#)
- [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021](#)

Gan bwy neu o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n derbyn y data personol gan yr unigolion neu'r sefydliadau canlynol;

- Aelodau o'r Pwyllgor
- Swyddogion o fewn Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru ac Awdurdodau Lleol
- Staff cymorth o fewn Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru ac Awdurdodau Lleol

Gyda phwy rydyn ni'n rhannu'r data personol?

Mae cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar wefan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae modd eu gweld nhw yma:

- [Papurau Llywodraethu - Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

Prosesyddion data:

Mae prosesydd data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd. Mae Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru'n defnyddio prosesyddion data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Dyma'r categorïau o brosesyddion data rydyn ni'n eu defnyddio;

- Cyflenwyr systemau TG / darparwyr gwasanaeth

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar ein cyfarwyddyd ni yn unig - does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth gyda'ch data personol oni bai ein bod ni wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Fyddan nhw ddim yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn ei defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n ei ddal yn ddiogel ac yn ei gadw am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, ebostiwch yr Arweinydd Diogelu Data (Jonathon.Segarty@caerdydd.gov.uk).

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'r data personol?

Bydd cofnodion, papurau cefndir ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall sy'n cael ei chyhoeddi yn dilyn cyfarfod pwyllgor yn cael eu cadw am 6 blynedd.

Bydd datganiadau o fuddiant yn cael eu cadw am flwyddyn hyd nes iddyn nhw gael eu disodli.

Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae rhaid i ni sicrhau eich bod chi'n effro i'ch hawliau. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu'r wybodaeth.

Eich hawl i weld eich data personol

Mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl yma wastad yn berthnasol Mae rhai eithriadau, sy'n golygu efallai na fyddwch chi bob amser yn derbyn yr holl wybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i gywiro

Mae gyda chi hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae hefyd gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma wastad yn berthnasol. [Mae modd darllen rhagor am yr hawl yma.](#)

Hawl i ddileu gwybodaeth

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni ddileu'ch gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau. [Mae modd darllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i gyfyngu ar brosesu

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni gyfyngu'r gwaith o brosesu'ch gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau. [Mae modd darllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu gwybodaeth

Mae hawl gyda chi i wrthwynebu'r gwaith prosesu os oes modd i ni brosesu'ch gwybodaeth oherwydd bod y broses yn rhan o'n tasgau cyhoeddus neu er ein budd cyfreithlon. [Mae modd darllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i gludadwyedd data

Mae hyn dim ond yn berthnasol i wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni. Mae hawl gyda chi i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni o un sefydliad i'r llall neu ei rhoi i chi. Mae'r hawl dim ond yn berthnasol os rydyn ni'n prosesu gwybodaeth yn seiliedig ar eich caniatâd neu os ydyn ni'n cynnal sgwrs ynglŷn ag ymrwymo i gontract a bod y prosesu'n awtomatig. [Mae modd darllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae mis gyda ni i ymateb i'ch cais o'r dyddiad mae'ch cais yn cael ei ddilysu. Mae modd i ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os byddwn ni'n derbyn nifer o geisiadau gennych chi.

Cysylltwch â'r arweinydd Diogelu Data os rydych chi'n dymuno gwneud cais.

Eich hawl i wneud cwyn diogelu data

Mae gyda chi hawl i gwyno i Gydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru os nad ydych chi'n credu ein bod ni wedi trin eich data personol yn gyfrifol ac yn unol ag arfer da.

Os oes pryder gyda chi, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym gyda galwad ffôn syml neu drwy e-bost. Pe hoffech chi wneud cwyn ffurfiol mae modd gwneud hynny drwy ein [Polisi Cwynion](#).

Mae hefyd modd i chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data. Serch hynny, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf. Gwybodaeth gyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

- Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: <http://www.ico.org.uk>

Rheoli'r Fersiwn

Rhif y Fersiwn	Yn ddilys o	Yn ddilys hyd at	Sylwadau
1.0	Awst 2022	Presennol	Llunio'r ddogfen. Y ddogfen derfynol.